

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 4ydd o Fehefin 2014

Yn bresennol / Present: Cyng. Bill Green, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Lewis Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Geraint Hatcher, Cyng Daniel Evans, , Cyng Daff Davies, Cyng Alun Davies, Cyng Helen Howells.

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Geraint Davies, Cyng Mary Thomas

Cydymdeimlwyd yn ddwys a'r Cyng Mary Thomas a'r teulu cyfan ar brofedigaeth ei brawd yng nghyfraith. Condolences were extended to Cllr Mary Thomas and her family on the passing away of her brother in law.

Llongyfarchwyd Danny a Martha Davies, Gorsgoch ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Congratulations were extended to Danny and Martha Davies, Gorsgoch on celebrating 60 years of married life.

Croesawyd y Cyng Helen Howells i'n plith a diolchwyd iddi am gymryd y sedd. Cllr Helen Howells was warmly welcomed to the Community Council.

| | |
|----|--|
| 1 | <u>Datgelu Buddianau Personol / Declare Personal Interests</u> Nid oedd unrhyw fuddianau personol. There were no personal interests to declare. |
| 2 | <u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Mai yn gywir gan y Cyng. Daniel Evans ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Bill Green. The May minutes were proposed as a true record by Cllr Daniel Evans and seconded by Cllr Bill Green. |
| 3. | <u>Materion yn Codi – Matters Arising</u> |
| a. | Cofgolofn Drefach /Drefach War Memorial – Mae'r gwaith o lanhau'r milwr wedi ei gwblhau. The work of cleaning the soldier has been completed. |
| b. | Taith Gerdded / Walk for Life – Daeth y cyfanswm i £1272.00 ac mi fydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i gyfri'r Cyngor Cymuned ac mae'r Clerc yn mynd i ofyn i gynrhychiolydd i ddod allan er mwyn i'r siec cael ei gyflwyno a rhoi llun yn y papur. Derbyniwyd gwahoddiad i ginio'r elsuen a cynigwyd bod y Cyng Geraint Hatcher a'i wraig yn mynychu. The total money raised was £1272.00 and this will be transferred to the Community Council's account and the Clerk will ask for a representative from the charity to come out to receive it and put a picture in the paper. An invitation was received to the charity's diner and it was proposed that Cllr Geraint Hatcher and his wife attend. |
| c. | Glanhau Llwybrau / Grass Cutting of Footpaths – Derbyniwyd dau dendr ar gyfer glanhau llwybr Glanyrafon a llwybr Highmead. Derbyniwyd tendr Gareth Evans, Parcyrhos. Two tenders were received to cut the footpaths at Glanyrafon and Highmead. Gareth Evans, Parcyrhos was successful. |

| | |
|----|--|
| 4 | <p><u>Gohebiaeth</u></p> <p>a. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion Annual General Meeting – Cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Mai heb wahoddiad i'r Cynghorau Cymuned oherwydd yr amgylchiadau. Roedd y Cyng John Adams-Lewis wedi ei ail-ethol fel Cadeirydd am y flwyddyn a'r Cyng Gill Hopley fel yr is-gadeirydd. Mi fydd derbynwest yn digwydd ym mis Medi. The AGM was held in May without an invitation to the Community Council's due to the circumstances. Cllr John Adams-Lewis was re-elected as Chairman and Cllr Gill Hopley as vice-chairman. A reception will be held again in September.</p> <p>b. Safety Barriers' Clwb Cledlyn – Derbyniwyd llyth wrth Clwb Cledlyn yn dweud bod y barriers tu allan i faes chwarae Drefach wedi cael difrod a gofynwyd a oedd modd i'r Cyngor Cymuned gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd i ofyn iddyn nhw ei atgyweirio neu ofyn pa gwmni sydd yn eu gwneud nawr. Cytunwyd gwneud hyn. A letter was received from Clwb Cledlyn stating that the barriers outside Drefach playing field had been damaged and they asked whether it would be possible for the Community Council to contact the Highways department to repair them or ask them which company manufactures them now. It was agreed that the Clerk would do this.</p> <p>c. Cylchgrawn Un Llais Cymru Magazine – Dosbarthwyd / Circulated</p> <p>d. Cae Troedyrhiw, Cwrtnewydd – Roedd trigolion cwrtnewydd yn dweud bod cerrig mawr a diggers yn y cae hwn ar hyn o bryd ac yn gofyn beth oedd yn digwydd. Dywedwyd bod y ffermwr yn dreinio'r ddaear yma. Cwrtnewydd Residents were asking what was going on in this field as there were diggers and large stones in the field. It was stated that the farmer was draining the field.</p> <p>e. Rosemary Mckee – 'river bank and flow of water' – Gofynwyd pwy sydd yn gyfrifol am ddiogelu a chynnal ochrau'r afon a llif y dwr. Cynghorwyd Mrs Mckee i gysylltu gyda Dŵr Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru. It was asked who is in charge of protecting and maintaining the river bank and flow of water, Mrs Mckee is advised to contact Welsh Water or Natural Resources Wales.</p> <p>f. Deed of Trust War Memorial Drefach – Gofynnodd Ann Thomas, Milford i'r Clerc gysylltu gyda'r cyfreithwyr Arnold Davies Vincent Evans i ofyn os oes ganddyn nhw ddogfennau'r gofgolofn o hyd. Ann Thomas, Milford asked if the Clerk could contact the solicitors Arnold Davies Vincent Evans to ask whether they still have the deed of trust for the War Memorial.</p> <p>g. Arwydd Blaencwrt o ben Gorsgoch a sgwar Bwlchnewgat wedi eu dwyn bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am rai newydd – The Blaencwrt signs have been stolen and the Clerk should ask the Council for new ones.</p> |
| 5. | <p><u>Cyfrifon / Accounts</u></p> <p>a. Budget 2014-2015 – Pasiwyd/Passed</p> |
| 6. | <p><u>Taliadau/Ceisiadau am Arian/ Payments/Requests</u></p> <p>a. Lyn Llewellyn Internal Audit - £130</p> <p>b. CFFI LLanwenog – Cynigwyd rhoi £1000.00 i'r clwb eleni oherwydd eu bod yn cynnal Rali'r Sir gan Cyng Bill Green ac eiliwyd gan y Cyng Daniel Evans. It was proposed to give the YFC</p> |

| | |
|----|--|
| | <p>£1000.00 this year as they are holding the annual Rally by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Daniel Evans.</p> |
| 7. | <p><u>Ceisiadau Cynllunio/ Planning Applications</u></p> <p>a. Installation of a single medium scale wind turbine (up to 35m blade tip) associated equipment – Maesygarn, Gorsgoch – Object on visual impact on the Parish of Llanwenog.</p> <p>b. Llechwedd Hen Erection of 5 `treehouses' along with associated decking, formation of car park - APPROVED</p> |
| 8. | <p><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></p> <p>a. <u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</u> Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 1af o Orffennaf am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on the 1st July at 7.30pm at Drefach Village Hall.</p> <p>b. Hysbysebwyd bod cinio Cynghair y Cymunedau yn cael ei gynnal ar y 14eg o Orffennaf yn sied Llechwedd £25 y pen. It was advertised that the diner of the Communities League was to be held on the 14th July at Llechwedd £25 per head.</p> <p>c. Mae Neuadd Gorsgoch ar rhestr fer ar gyfer derbyn grant sylweddol gan y loteri. Gorsgoch Hall is on the short list for receiving a significant grant from the lottery.</p> <p>d. Mi fydd Helfa Drysor Cylch Meithrin Drefach yn digwydd ar y 6ed o Fehefin am 6yh. Cylch Meithrin Drefach will hold a Treasure Hunt on the 6th June starting at 6pm.</p> |